

TUDALEN 91

Cofnodion **Cyfarfod y Cyngor llawn o bell** a gynhaliwyd drwy fideo-gynadledda Zoom, **nos Lun 26 Ebrill 2021** am 7-03pm.

YN BRESENNOL: - Ei Deilyngdod y Maer Cynghorydd John Wyn Williams (Cadeirydd), Y Dirprwy Faer Cynghorydd Owen Hurcum
Cynghorwyr : Les Day, Luke Tugwell, Medwyn Hughes, George Turner, Enid Parry, Elin Walker Jones, John Martin, John Wynn Jones, Kieran Jones, Gwynant Roberts, Mair Rowlands

Swyddogion:- Iwan Williams, Cyfarwyddwr Dinesig, Martin Hanks, Clerc y Dref dros dro, Gwynfor Owen (Cyfieithydd)

420/19 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Dylan Fernley, Huw Wyn Jones, Gareth Roberts a Nigel Pickavance.

421/19 DATGANIAD O FUDDIANT ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL

Dim.

422/19 CYFRANOGIAD Y CYHOEDD

Dim.

423/19 CYHOEDDIADAU/MATERION BRYS

Hysbysodd y Cadeirydd y Cyngor fod Colin King wedi ymddiswyddo fel Cynghorydd y Ddinas. Bydd hysbysiad yn cael ei wneud yn gyhoeddus yn dilyn etholiadau'r Senedd ar 6 Mai.

424/19 COFNODION

- a) Cyfarfod y Cyngor – 8 Mawrth 2021 – Cymeradwyo fel cofnod cywir – Tudalen, 74,75 - **Cymeradwywyd**
- b) Cyfarfod y Cyngor – 15 Mawrth 2021 – Cymeradwyo fel cofnod cywir – Tudalen 76,77 – **Cymeradwywyd**
- c) Pwyllgor Cynllunio a Mwynderau – 15 Mawrth 2021 – Cymeradwyo fel cofnod cywir – Tudalen 78,79,80 – **Cymeradwywyd**
- d) Pwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol – 29 Mawrth 2021 – Cymeradwyo fel cofnod cywir Tudalen 84,85 – Cynigiwyd gwelliant i f) Cynnig Frân Wen i gefnogi 'Y Nyth' a g) Cynnig Cynllun Celfyddydau Gwynedd i gefnogi 'Goleuo Gwynedd'. Gwahodd cynrychiolwyr o'r ddau gynllun i fynychu cyfarfod nesaf y Pwyllgor Cyllid i roi manylion am sut byddant yn buddsoddi unrhyw gymorth ariannol gan y Cyngor, ond nid i neilltuo £5,000 yr un. **Cymeradwywyd**
- e) Pwyllgor Cynllunio a Mwynderau – 29 Mawrth 2021 – Cymeradwyo fel cofnod cywir - Tudalen 84,85 – **Cymeradwywyd**
- f) Pwyllgor Cynllunio a Mwynderau – 19 Ebrill 2021 – Cymeradwyo fel cofnod cywir – Tudalen 86,87 – **Cymeradwywyd**
- g) Pwyllgor Staffio – 19 Ebrill 2021 – Cymeradwyo fel cofnod cywir – Tudalen 88 - **Cymeradwywyd**

425/19 ETHOL DARPAR FAER AR GYFER 2021/22

Gofynnodd y Cadeirydd am enwebiadau i swydd y Maer yn 2021/22, a chyflwynwyd dau enw. **PENDERFYNWYD:** Etholwyd Cyng Hurcum yn Faer Bangor ar gyfer blwyddyn fwrdeistrefol 2021/22. Llongyfarchodd y Cyngor Cyng Hurcum ar eu penodiad.

426/19 ETHOL DIRPRWY FAER AR GYFER 2021/22

Gofynnodd y Cadeirydd am enwebiadau i swydd Dirprwy Faer yn 2021/22, a chyflwynwyd un enw. **PENDERFYNWYD:** Etholwyd Cyng Gwynant Roberts yn Ddirprwy Faer Bangor ar gyfer blwyddyn fwrdeistrefol 2021/22. Llongyfarchodd y Cyngor y Cyng Roberts ar ei benodiad.

427/19 DIWEDDARIAD Y CYFARWYDDWR DINESIG

- **Gweithgor Llywodraethiant a Strwythur:** Hysbyswyd y Cyngor gan y Cyfarwyddwr Dinesig fod Gweithgor, yn cynnwys chwe aelod, wedi cyfarfod ar 16 a 23 Ebrill i drafod llywodraethiant y Cyngor yn y dyfodol ac i gytuno ar strwythur pwyllgorau newydd. Rhannwyd cynnig gyda'r Cyngor ac roedd yn cynnwys dau Bwyllgor Gweithredol newydd: Asedau, Adnoddau a Phrosiectau (10 aelod) a Llywodraethiant, Staffio a Chyllid (10 aelod). Byddai aelodau'r Cyngor yn cael eu rhannu rhwng y pwyllgorau hyn, gydag o leiaf un aelod o bob ward ar y ddau bwyllgor.

O ran y Pwyllgor Cynllunio, cynigiwyd cael 10 aelod ar y Pwyllgor hwn hefyd. Dim ond i drafod ceisiadau strategol y byddai'r Pwyllgor Cynllunio yn cyfarfod (yr un noson â chyfarfod Cyngor/Pwyllgor arall), gyda'r Cyfarwyddwr Dinesig yn e-bostio'r aelodau i ofyn am unrhyw sylwadau ar geisiadau trefniadol cyn anfon y rhain i Gyngor Gwynedd. Os nad yw aelod o'r Cyngor yn aelod o un o'r pwyllgorau hyn, yna gallai'r aelod hwnnw fynychu'r cyfarfod a siarad am eitem arbennig ar yr agenda. Fodd bynnag, ni fyddai pleidlais gan yr aelod hwnnw. Byddai Cadeiryddion a Dirprwy Gadeiryddion y tri phwyllgor hyn yn cael eu dewis drwy bleidlais gan aelodau'r Pwyllgor yng nghyfarfod cyntaf y Pwyllgor, a byddent yn gwasanaethu am uchafswm o ddwy flynedd. Cynigiwyd gwneud adolygiad o'r strwythur newydd ar ôl chwe mis.

PENDERFYNWYD: Cymeradwywyd strwythur llywodraethiant a phwyllgor newydd y Cyngor, gyda 10 pleidlais o blaid.

- **Rhestr cyfarfodydd 2021/22:** Roedd y Cyfarwyddwr Dinesig wedi rhannu amserlen dros dro gyda'r aelodau cyn cyfarfod y Cyngor, oedd yn seiliedig ar y strwythur pwyllgorau newydd a drafodwyd yn flaenorol. Awgrymwyd fod y strwythur yn cael ei gymeradwyo yn y Cyfarfod Blynyddol. **PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo rhestr cyfarfodydd 2021/22 yn y Cyfarfod Blynyddol ar 10 Mai.
- **Covid-19: Defnyddio Neuadd y Penrhyn yn y dyfodol:** Dywedodd y Cyfarwyddwr Dinesig wrth y Cyngor fod canllawiau Llywodraeth Cymru'n golygu y gall, o 3 Mai, gweithgareddau dan do a drefnir i oedolion ailgychwyn i hyd at 15 o bobl. Gall hyd at 15 o bobl felly fynychu'r Cyfarfod Blynyddol yn Neuadd y Penrhyn ar 10 Mai, gydag eraill yn ymuno o bell ar Zoom. O 17 Mai, mae'r cyfyngiad ar weithgareddau a drefnir yn codi i 30 o bobl dan do. Yn unol â gwaith y Gweithgor Llywodraethiant a Strwythur, awgrymodd y Cyfarwyddwr Dinesig fod cyfarfodydd y Cyngor yn y dyfodol i'w cynnal yn Neuadd y Penrhyn, gyda chyfarfodydd Pwyllgor wedi hynny yn parhau ar Zoom. Cynigiwyd fformat hybrid i gyfarfodydd y Cyngor h.y. rhai aelodau yn Neuadd y Penrhyn gydag eraill yn ymuno drwy Zoom. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Dinesig y byddai angen trafod gyda'r cyfieithydd sut byddai'r trefniadau cyfieithu yn gweithio mewn gosodiad hybrid.
- **Marchnad Awyr Agored Bangor yn Dychwelyd:** Hysbysodd y Cyfarwyddwr Dinesig y Cyngor fod trafodaethau'n cael eu cynnal gyda stondinwyr ynghylch dychwelyd marchnad awyr agored o amgylch y Cloc, gan anelu at ddyddiad ym mis Mehefin.
- **Cytundeb CCTV gyda Chyngor Gwynedd:** Hysbysodd y Cyfarwyddwr Dinesig y Cyngor fod Cytundeb Lefel Gwasanaeth (SLA) tair blynedd gyda Chyngor Gwynedd wedi'i dderbyn, ynghyd â chais i dalu'r costau blynyddol o £8,830 am y rhwydwaith CCTV ym Mangor. Trafododd y Cyngor a ellid cyflwyno cyfleusterau CCTV symudol i wahanol rannau o Fangor, i ymateb i unrhyw achosion o dor-cyfraith neu ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn ardaloedd arbennig. Awgrymwyd cael CCTV i'r Pier hefyd. **PENDERFYNWYD:** Y Cyfarwyddwr Dinesig i lofnodi'r SLA ar ran y Cyngor, cytuno i dalu'r costau blynyddol a gwneud ymholiadau am gyfleusterau CCTV symudol a rhai ar gyfer y Pier.
- **Cynnig Cyfrif Trydar y Maer:** Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Dinesig y cynnig i'r Cyngor. Byddai Cyfrif Twitter yn ffordd newydd i'r Cyngor gyfathrebu â'r cyhoedd am ei waith a hybu'r hyn mae'n ei gyflawni ynghyd â datblygiadau cadarnhaol sy'n digwydd ym Mangor. Ychwanegodd y Dirprwy Faer y byddai'r cyfrif yn gwbl ddwyieithog ac yn anwleidyddol, ac y

byddai yno i Feiri'r dyfodol ei ddefnyddio. Awgrymwyd mai opsiwn arall fyddai cael cyfrif Trydar i Gyngor Dinas Bangor, yn hytrach nag un i'r Maer yn unig. Holwyd hefyd a fyddai cyfrif Facebook Cyngor Dinas Bangor yn opsiwn a/neu. Cefnogwyd a derbyniwyd y cynnig i gael cyfrifon Twitter a Facebook. Roedd cefnogaeth i dreialu'r cynnig a'i adolygu yn y dyfodol agos. Cyflwynwyd gwelliant hefyd, sef gwrthod y cynnig, ar sail y pethau negyddol sy'n gysylltiedig â'r cyfryngau cymdeithasol a'r amheuaeth am werth ychwanegol cael cyfrifon o'r fath.

Pleidlais: Ar y gwelliant i wrthod y cynnig, 2 o blaid a 9 yn erbyn.

Pleidlais: Ar y cynnig i sefydlu cyfrifon Twitter a Facebook, 8 o blaid a 2 yn erbyn.

PENDERFYNWYD: Cyngor Dinas Bangor i sefydlu cyfrifon Twitter a Facebook yn dilyn y Cyfarfod Blyneddol ar 10 Mai.

- **Cytuniad ar Wahardd Arfau Niwclear:** Hysbyswyd y Cyngor gan y Cyfarwyddwr Dinesig fod llythyrau wedi'u derbyn gan gangen Menai Cymdeithas y Cenhedloedd Unedig a Chyfarfod Crynwyr Bangor i gefnogi'r Cytuniad. Y ddau gais i weithredu oedd ymuno â'r ymgyrch ryngwladol a llofnodi Apêl y Dinasoedd', a galw ar Lywodraeth y DU i gofnodi a chymeradwyo'r Cytuniad. Cytunodd y Dirprwy Faer a'r Cynghorwyr Day a Walker Jones y dylai'r Cyngor osod esiampl a chefnogi'r Cytuniad. **PENDERFYNWYD:** Cytunodd y Cyngor i gefnogi'r Cytuniad a derbyn y ceisiadau i weithredu, gyda 10 pleidlais o blaid.
- **Cynnig i'r 'Aderyn Ysglyfaethus' ymweld â Bangor:** Hysbysodd y Cyfarwyddwr Dinesig y Cyngor fod cynnig wedi'i wneud i gael yr Aderyn Ysglyfaethus i ymweld â Bangor eto i fynd i'r afael â phroblem y gwylanod, yn enwedig o gwmpas y Stryd Fawr. Cynigiwyd y byddai'r Aderyn Ysglyfaethus yn ymweld â gwahanol rannau o'r ddinas, a soniwyd hefyd fod gwylanod yn broblem arbennig o amgylch Canolfannau Deiniol a Menai. **PENDERFYNWYD:** Cytunodd y Cyngor i'r cynnig i'r Aderyn Ysglyfaethus ymweld â Bangor yn Ebrill/Mai, gyda 10 pleidlais o blaid.

428/19 ANFONEBAU I'W TALU

Hysbyswyd y Cyngor gan y Cyfarwyddwr Dinesig fod yr anfonebau wedi'u cymeradwyo i'w talu gan y Maer a'r Dirprwy Faer fel y manylir arnynt ar y rhestr yn dod i gyfanswm o £34,125-89. Esboniodd y Cyfarwyddwr Dinesig fod cyfanswm yr anfonebau yn uwch nag arfer gan eu bod yn cynnwys polisi Yswiriant y Cyngor am 2021/22 oedd yn dod i gyfanswm o £18,001.

429/19 LLOFNODI DOGFENNAU

Dim.

Daeth y Cyfarfod i ben am 8-31pm